

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf gan ganolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, ar sail achos beirniadol a arsylwyd

Cyflwyniad

Trafoda'r traethawd hwn achos beirniadol a arsylwyd sy'n ymwneud ag ymddygiad dysgwr unigol. Disgrifir yr achos a'r dull a ddefnyddiwyd wrth arsylwi, cyfeirir at feysydd sy'n berthnasol i'r achos a sut mae'n cysylltu â dibenion y cwricwlwm, fy natblygiad proffesiynol, y camau nesaf a'r safonau proffesiynol newydd. Crëir achosion beirniadol trwy arsylwi ac unigolion oherwydd, '[...] critical incidents are produced by the way we look at a situation: a critical incident is an interpretation of the significance of an event' (Tripp, 2003:8). Awgryma hyn fod achosion beirniadol yn amrywio o berson i berson oherwydd bod pobl yn beirniadu gwahanol achosion mewn gwahanol ffyrdd sy'n arwain at roi gwahanol ystyrion ac arwyddocâd iddynt. Maent yn ymddangos, '[...] to be 'typical' rather than 'critical' at first sight, but are rendered critical through analysis' (Tripp, 2003:25) sy'n dangos bod y ffordd yr ydym yn dadansoddi'n wrthrychol ac yn gwerthuso'r achosion yn eu gwneud yn feirniadol. Felly, mae ein dadansoddiad o'r achosion yn creu achosion beirniadol, gwirio rhagdybiaethau neu'n cynnig syniadau newydd. Ychwanega achosion beirniadol at ddarganfod ffocws ar gyfer ymchwil gweithredol yn yr ystafell ddosbarth (Tripp, 2003:24) sy'n creu'r syniad eu bod yn digwydd mewn arfer proffesiynol arferol ac yn gallu effeithio ar addysgu a dysgu. Cyfranna achosion beirniadol at nodi arferion llwyddiannus ac aflwyddiannus o addysgu ac yn helpu'r athro i wella'i arferion (Fletcher-Wood, 2016:126). Cefnoga hyn eu bod yn hanfodol yng nghyd-destun arfer adfyfyriol ym maes addysgu oherwydd gallent helpu i reoli perfformiad, datblygu dulliau dysgu a gwella datblygiad proffesiynol a safonau (Estyn 2014:1).

Arsylwi

Yn yr adran hon, rhoddir gwybodaeth gyd-destunol am yr ysgol a'r dosbarth dan sylw. Byddaf yn dilyn canllawiau BERA er mwyn parchu preifatrwydd, ymreolaeth, gwerthoedd ac urddas unigolion, grwpiau a chymunedau (BERA, 2018:4). Dywedir, 'Researchers should recognise the entitlement of both institutions and individual participants to privacy, and should accord them their rights to confidentiality and anonymity' (BERA, 2018:21), oherwydd hyn, cyfeirir at yr ysgol fel 'Ysgol A' a'r dysgwr unigol fel 'Disgybl A.'

Ysgol uwchradd Saesneg 3-16 oed a leolir yn Sir Castell-Nedd Port Talbot yw Ysgol A. Mynycha 1512 o ddisgyblion yr ysgol gyda 1,226 o ddisgyblion o oedran uwchradd a 286 o ddisgyblion o oedran cynradd (Estyn 2018:1). Yn ôl Estyn, 'Over 30% of pupils are eligible for free school meals, which is higher than the national average of 16.4% for secondary schools and 18% for primary schools' (Estyn 2018:1). Mae'r ysgol yn cynnal sylfaen adnoddau ar gyfer 120 o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 a 4 sydd gan anghenion dysgu ychwanegol oherwydd bod canran y disgyblion sydd gan anghenion dysgu ychwanegol yn 26% sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 22.9% (Estyn, 2018:1). Yn yr ysgol, mae 9.2% o ddisgyblion sydd gan anghenion addysgol arbennig sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 2.2% (Estyn, 2018:1). Arsylwais ddosbarth Blwyddyn 8 Set 2 mewn gwers Gymraeg ail iaith a gynhaliwyd gwers gyntaf y dydd. Yr oedd 31 o ddisgyblion 12-13 oed yn y dosbarth. Yr oeddwn yn arsylwi'r dosbarth cyfan ond yr oedd ymddygiad disgybl unigol yn drawiadol.

Methodoleg

Arsylwi yw ffordd bwrpasol, systematig a detholus o wyllo a gwrando ar ryngweithiad wrth iddo ddigwydd (Kumar, 2005:119). Darpara arsylwi gyfleoedd i gasglu data byw o sefyllfaoedd byw, felly rhoddir cyfle i edrych ar bethau mewn amser go iawn (Cohen *et al*, 2000:305). Mae methodoleg astudiaeth achos yn ymwneud ag arsylwi digwyddiad, grŵp, unigolyn a chymunedau. Dywedir bod, 'The case study method is an approach to studying a social phenomenon through a thorough analysis of an individual case' (Kumar, 2005:113). Darperir cyfle i ddadansoddi manylion penodol a anwybyddir gan ddulliau eraill. Rhy astudiaeth achos enghreifftiau unigryw o bobl go iawn mewn sefyllfaoedd go iawn sy'n galluogi darllenwyr i ddeall syniadau yn glir. Ceir llawer o fanteision methodoleg astudiaeth achos oherwydd ei fod yn dangos syniadau haniaethol, darparu ymchwiliad manwl ac yn cyflwyno ymchwil neu ddata mewn ffordd hygyrch. Fodd bynnag, gallai fod yn rhagfarnllyd, personol ac yn oddrychol (Kumar, 2005).

Ceir gwahanol fodelau arsylwi sy'n casglu data megis sosiogramau a ddefnyddir i olrhain a chofnodi rhyngweithiadau a chyfathrebu rhwng disgyblion mewn cyd-destunau gwahanol. Helpa hyn i ddarganfod patrymau a pherthnasau yn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mae'n heriol olrhain a chofnodi pob rhyngweithiad mewn gwersi (Raise Learning 2011, Ar-lein). Gellid defnyddio cyfryngau digidol fel fideos sy'n fuddiol oherwydd nad oes rhaid cofio

gwybodaeth o'r arsylwi oherwydd gellid ail-wyllo'r fideo. Fodd bynnag, gallai problemau technoleg a diogelwch ddigwydd os yw'r fideos yn mynd ar goll. Model arall yw siartiau tic sy'n cynnwys ymddygiadau neu sgiliau penodol i weld a ydynt yn digwydd yn ystod yr arsylwi (Cohen *et al*, 2000:307). Asesir amrywiaeth o ymddygiadau a sgiliau wrth ddefnyddio siartiau tic ond gallent arwain at golli gwybodaeth bwysig os yw arsylwadau wedi'u cyfyngu i'r eitemau hynny yn unig ar y siartiau.

Arsylwais wahanol ddosbarthiadau mewn gwahanol wersi yn Ysgol A lle yr oeddwn yn eistedd ar flaen neu ar gefn yr ystafell ddosbarth. Defnyddiwyd y dull, '**Non-participant observation** [...] when you, as a researcher, do not get involved in the activities or group but remains a passive observer, watching and listening to its activities and drawing conclusions from this' (Kumar, 2005:120). Dewisais y dull hwn yn hytrach nag arsylwi cyfranwyr oherwydd bod arsylwi cyfranwyr yn cynnwys cyfranogi mewn gweithgareddau gyda'r grŵp sy'n cael ei arsylwi (Kumar, 2005:120), felly bydd angen cofio gwybodaeth o'r arsylwi. Casglwyd data trwy ddefnyddio cofnodion ysgrifenedig lle ysgrifennais nodiadau yn y foment a oedd yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau'r wers gyfan. Ysgrifennwyd nodiadau manwl am dasgau'r wers, symudiad ac ymddygiad disgyblion ac athrawon i ddarganfod achosion. Ar ôl arsylwi, dadansoddais y nodiadau i'w trosglwyddo ar daflenni wedi'u paratoi ymlaen llaw a oedd yn cynnwys cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher-Wood (2016), gwelir yn Atodiad 1-4. Nid oedd angen cofio gwybodaeth o'r wers oherwydd nodwyd pob agwedd eisoes. Fodd bynnag, pan ddaw unigolion neu grwpiau yn ymwybodol eu bod yn cael eu harsylwi, gallent newid eu hymddygiad sy'n portreadu effaith Hawthorne oherwydd, 'The use of observation in such a situation may introduces distortion: what is observed may not represent their normal behaviour' (Kumar, 2005:120). Yn ogystal â hyn, gallech golli gwybodaeth neu ddigwyddiadau pwysig wrth i chi ysgrifennu nodiadau manwl (Kumar, 2005:121).

Pedwar diben

Yn yr adran hon, disgrifir yr achos beirniadol a arsylwyd yn Ysgol A trwy ei gysylltu â dibenion y cwricwlwm. Canolbwyntia'r arsylwi ar ymddygiad Disgybl A mewn gwers Gymraeg sy'n dysgu am 'Daldra' (gwelir yn Atodiad 1). Arsylwais i'r dosbarth cyfan ond yr oedd ymddygiad Disgybl A yn drawiadol ac yn effeithio ar ddysgu disgyblion eraill, felly treuliais fwy o amser yn canolbwyntio arno. Fodd bynnag, gallwn fod wedi colli rhai agweddau o'i ymddygiad ar adegau trwy ysgrifennu nodiadau ac nid edrych arno.

Yn ystod wers, yr oedd Disgybl A yn swingio ar ei gadair ac yn troi o gwmpas i aflonyddu a siarad â'r disgyblion ar y bwrdd y tu ôl iddo (gwelir yn Atodiad 5). Nid oedd yn canolbwyntio ar ddysgu neu'n cwblhau'r tasgau. Â hyn yn erbyn pedwar diben y cwricwlwm i Gymru oherwydd pwysleisia un diben yr angen i greu dysgwyr uchelgeisiol a galluog sydd, 'yn gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maent yn dysgu amdanynt' ac 'yn gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau' (Llywodraeth Cymru 2015a:8). Oherwydd bod Disgybl A yn aflonyddu ar ddisgyblion eraill, nid ydynt yn canolbwyntio ar ddysgu neu'n cwblhau'r tasgau na fydd yn eu galluogi i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog. Mae Disgybl A yn rhwystro ar botensial a dysgu disgyblion eraill yn ogystal â'i ddysgu ei hun. Mae'n hanfodol iddo ganolbwyntio ar ddysgu a chwblhau tasgau yn y wers Gymraeg oherwydd canolbwyntia adroddiad Donaldson ar gryfhau lle'r iaith Gymraeg yn y cwricwlwm ac mae angen mwy '[...] o ffocws ar allu plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg yn hyderus mewn sefyllfaoedd bob dydd, gyda phwyslais ar ei rôl gynyddol yn y gweithle' (Llywodraeth Cymru 2015b:7). Pwysleisia hyn bwysigrwydd gwersi Cymraeg.

Ar ôl gweld Disgybl A yn camymddwyn, gofynnodd yr athrawes iddo stopio. Gwrandodd ef ar y gorchymyn ac aeth yr athrawes i'w fwrdd i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y dasg ac yn gwybod beth i'w wneud. Treuliodd yr athrawes lawer o amser yn helpu Disgybl A ond cyn gynted ag y bydd yn gadael ei fwrdd, mae'r disgybl yn mynd oddi ar y dasg, yn swingio ar ei gadair eto ac yn aflonyddu ar ddisgyblion. Â hyn yn erbyn bod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus sydd, 'yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu' (Llywodraeth Cymru 2015a:8) oherwydd ei fod yn parhau i gamymddwyn ar ôl iddo gael rhybudd. Awgrymir nad yw'n, 'parchu anghenion a hawliau pobl eraill [...]' (Llywodraeth Cymru 2015a:8) trwy barhau i aflonyddu ar ddisgyblion.

Pan oedd Disgybl A yn aflonyddu ar ddisgyblion ac yn swingio ar ei gadair eto, yr oedd yr athrawes yn helpu disgyblion eraill ar ochr arall yr ystafell ac nid oedd wedi gweld hyn am nifer o funudau. Cyn gynted ag y gwelodd hyn, symudodd yr athrawes Disgybl A i sedd newydd i sicrhau bod y bwrdd y tu ôl iddo yn gallu parhau i ddysgu a chanolbwyntio ar y tasgau heb iddynt gael eu haflonyddu ganddo. Nid oedd Disgybl A wedi cael ei symud i sedd newydd tan ddiwedd y wers, felly yr oedd y disgyblion y tu ôl iddo wedi colli llawer o amser yn canolbwyntio ar ddysgu a chwblhau'r tasgau. Oherwydd hyn, byddent wedi cael trafferth i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sydd, 'yn adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt' ac 'yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau (Llywodraeth Cymru

2015a:8) oherwydd eu bod yn cael eu haflonyddu gan Ddisgybl A ac nid ydynt yn cael cyfleoedd i gwblhau'r tasgau yn llwyddiannus neu symud ymlaen yn y broses ddysgu.

Adolygiad o'r llenyddiaeth

Mae'r achos a arsylwyd wedi tynnu sylw at nifer o feysydd. Yn yr adran hon, edrychir ar ffactorau a meysydd sy'n berthnasol i'r achos neu wedi sbarduno'r achos.

1. Ffactorau sy'n achosi ymddygiad heriol

Ceir llyfr sy'n sôn am wahanol ffactorau sy'n achosi ymddygiad heriol yn yr ystafell ddosbarth (Stone, 1990). Mae'r maes hwn yn berthnasol i'r achos oherwydd bod Disgybl A wedi swingio ar ei gadair ac aflonyddu ar ddisgyblion, nid oedd yn canolbwyntio ar ddysgu neu'n cwblhau'r tasgau sy'n portreadu ymddygiad heriol. Gwelir nifer o ffactorau sy'n achosi ymddygiad heriol fel effeithiau'r ysgol, rheolaeth yr ystafell ddosbarth neu effeithiau'r cartref (Stone, 1990). Pwysleisir yr angen i ystyried y disgybl cyfan oherwydd gallai'r disgybl fod yn cael problemau cartref sy'n achosi'r ymddygiad heriol yn yr ysgol. Gall ymddygiad heriol aflonyddu ar ddysgu, achosi anafau a chael effaith ar y plentyn ei hun. Dywedir, '[...] he realises that he is struggling and responds in the only way he knows how, be that aggressively, rudely, by withdrawing or in a range of other ways' (Stone, 1990:5) sy'n awgrymu bod disgyblion yn dechrau camymddwyn oherwydd eu bod yn cael trafferth wrth wrando ar athrawon neu wrth wneud tasgau.

Ystyrir athrawon fel rheswm arall sy'n achosi ymddygiad heriol oherwydd bod disgyblion yn fwy tebygol o weithio os yw athrawon yn gwerthfawrogi eu hymdrechion ac os ydynt yn gweld llwyddiant (Stone, 1990:37). Dengys hyn fod rôl gan athrawon i'w chwarae i reoli a cheisio osgoi ymddygiad heriol. Nodir ymhellach bod, '[...] children find the work set too difficult and therefore quickly stop trying, reverting to what is seen as disruptive behaviour' (Stone, 1990:31) sy'n cefnogi'r syniad bod disgyblion yn camymddwyn oherwydd eu bod yn cael trafferth gyda'r gwaith. Pwysleisia hyn yr angen i wahaniaethu a sgaffaldio mewn gwersi i sicrhau bod disgyblion gallu is a disgyblion MAT yn cael eu herio ond yn defnyddio help i gynorthwyo eu dysgu.

Gall anawsterau dysgu achosi ymddygiad heriol oherwydd bod disgybl sydd gan anawsterau dysgu, '[...] is, more than likely going to present some behaviour problems, particularly if he is unable to keep up with lessons, feels a failure, does not understand requests or is expected to fail' (Stone, 1990:29). Awgryma hyn ei bod yn bosib bod gan Ddisgybl A anawsterau dysgu ac nid yw'n gallu cadw i fyny gyda'r gwaith yn ystod y wers, felly mae'n camymddwyn. Dywedir, 'Difficulties in learning often arise from an unsuitable environment – inappropriate grouping of pupils, inflexible teaching styles, or inaccessible curriculum materials – as much as from individual children's physical, sensory or cognitive impairments' (Department for education and skills, 2004:28) sy'n pwysleisio'r angen i athrawon ystyried yr amgylchedd, grwpio, dulliau dysgu neu ddeunyddiau cwricwlwm wrth ddysgu dosbarthiadau sy'n cynnwys disgyblion sydd gan anawsterau dysgu.

I grynhoi, achosa llawer o ffactorau ymddygiad heriol ac mae'n hanfodol gwybod amdanynt er mwyn i athrawon rheoli ymddygiad disgyblion yn y dyfodol.

2. Strategaethau rheoli ymddygiad

Ceir gwahanol fathau o strategaethau i reoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r maes hwn yn berthnasol i'r achos oherwydd bod Disgybl A yn camymddwyn trwy swingio ar ei gadair ac aflonyddu ar ddisgyblon eraill, felly mae'n bwysig deall gwahanol fathau o strategaethau ar gael i reoli ei ymddygiad yn y dyfodol. Dengys ymchwil nad yw cosb yn digalonni camymddwyn ond yn atgyfnerthu barn y disgybl am oedolion fel rhywbeth bradwrus (McManus, 1989:5). Mae cosbi disgyblion yn aneffeithiol ac yn gallu cythruddo problemau ymhellach sy'n cyfleu bod rheolaeth yn gysyniad mwy defnyddiol na chosb.

Canolbwyntia strategaeth disgyblaeth ataliol ar y theori bod athrawon yn gallu atal ymddygiad heriol os ydynt yn cymryd camau cywir i ddarparu amgylchedd dysgu deniadol lle mae anghenion disgyblion yn cael eu hystyried a'u trin yn sensitif (Charles, 2002:236). Portreada theori Rudolf Dreikurs fod camymddwyn yn cael ei achosi gan gymhelliant disgyblion i gyflawni targedau (Lyons *et al*, 2003). Argymhellir y dylai athrawon chwilio am esboniad sy'n seiliedig ar anghenion ar gyfer camymddwyn disgyblion ac wedyn trafod ffyrdd eraill er mwyn i'r disgyblion ddiwallu'r anghenion hyn (Lyons *et al*, 2003:7-8). Dengys hyn fod cyfathrebu da a chydweithio rhwng disgyblion a'r athro yn gallu atal camymddwyn.

Nodir bod gan ddisgyblion awydd i fod mewn grŵp cymdeithasol ond pan na fydd yr anghenion cymdeithasol y disgyblion yn cael eu diwallu, bydd y disgyblion yn defnyddio ymddygiad negyddol i gyflawni'r anghenion (Lyons *et al*, 2003:7). Mae ymddygiad negyddol yn cynnwys tactegau fel ceisio cael sylw a phŵer sy'n berthnasol i'r achos oherwydd bod Disgybl A yn swingio ar ei gadair ac yn siarad â'r disgyblion y tu ôl iddo er mwyn cael sylw wrthynt ond hefyd i aflonyddu eu dysgu sy'n portreadu'r angen i gael pŵer drostynt. Gwelir strategaethau i reoli ymddygiad fel hyn megis mabwysiadu dull democrataidd o ddysgu lle mae'r athro yn gweithio gyda'r disgyblion i wneud penderfyniadau o sut mae'r dosbarth yn gweithio (Lyons *et al*, 2003). Gall yr athro drafod anghenion a disgwyliadau ymddygiadol gyda'r dosbarth cyfan yn hytrach na thargedu disgyblion penodol sy'n camymddwyn. Byddai hyn yn sefydlu'r ymddygiadau sy'n dderbyniol yn yr ystafell ddosbarth.

Gellid creu amgylchedd lle mae anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu oherwydd pan fydd anghenion sylfaenol disgyblion yn cael eu diwallu, byddant yn canolbwyntio ar gyflawni anghenion eraill fel parch i eraill, hyder a chyflawniad (Reid, t.3, Ar-lein). Strategaeth arall yw canolbwyntio ar ymdrech yn hytrach na chyflawniad er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl deimlo'n llwyddiannus yn eu hastudiaethau. Mae gormod o bwyslais ar gyflawniad yn golygu nad yw disgyblion llai academiaidd yn profi llwyddiant (Reid, t.3 Ar-lein). Mae'n bosib bod hyn yn berthnasol i'r achos oherwydd bod Disgybl A yn cael trafferth wrth wneud y tasgau, felly mae'n gwybod nad yw'n mynd i gyflawni ac oherwydd hyn mae'n camymddwyn.

Strategaeth arall yw disgyblaeth gefnogol sy'n ymwneud ag atal camymddwyn yn y camau cynnar trwy ymgysylltu â hunanreolaeth disgyblion er mwyn iddynt ganolbwyntio yn ôl ar dasg. Mae model Levin a Nolan (2005) yn digalonni camymddwyn a darparu cyfle i ddisgyblion gywiro eu hymddygiad. Awgrymir y dylai athrawon newid cyflymder gweithgareddau dosbarth pan fyddant yn gweld bod disgyblion yn mynd yn aflonydd oherwydd bod disgyblion yn camymddwyn pan fydd rhaid iddynt eistedd a chanolbwyntio am fwy na 15-20 munud (Levin & Nolan, 2005:26-27). Strategaeth arall yw cymryd diddordeb mewn disgyblion nad ydynt yn canolbwyntio ar dasg trwy ofyn cwestiynau iddynt am eu gwaith neu os ydynt yn deall y dasg (Levin & Nolan, 2005). Gall athrawon hefyd fod yn gyson â chyfarwyddiadau, disgwyliadau a chanlyniadau. Mae'n bwysig cael cynllun ymyrraeth wedi'i bennu ymlaen llaw sy'n amlinellu mathau o gamymddwyn ac yn eu paru â dull disgyblu priodol a fydd yn helpu athrawon i ddarparu mathau cyson o ddisgyblaeth (Levin & Nolan, 2005:26). Mae disgyblion sy'n credu bod athrawon yn anghyson yn fwy tebygol o gamymddwyn sy'n amlinellu pwysigrwydd cynllun ymyrraeth wrth reoli ymddygiad.

I grynhoi, gwelir amrywiaeth o strategaethau i reoli ymddygiad ac mae'n hanfodol creu amgylchedd dysgu cadarnhaol lle mae disgyblion am ddysgu a chymryd rhan mewn tasgau. Bydd disgyblion sydd am gymryd rhan mewn tasgau a bod yn rhan o'r ystafell ddosbarth yn llai tebygol o gamymddwyn.

3. Lefel yr her mewn gwersi

Edrychir ar lyfr sy'n canolbwyntio ar chwe egwyddor i gefnogi addysgu a dysgu da (Allison & Tharby, 2015). Un o'r egwyddorion yw her oherwydd bydd gan ddisgyblion ddisgwyliad uchel o'r hyn y gallent ei gyflawni. Dywedir bod, '[...] challenge in education is the provision of difficult work that causes students to think deeply and engage in healthy struggle' (Allison & Tharby, 2015:14) sy'n atgyfnerthu y bydd disgyblion yn gallu symud ymlaen yn y broses ddysgu trwy roi her iddynt a chael disgwyliadau uchel ohonynt. Awgrymir ei bod yn dda i ddisgyblion gael trafferth, '[...] just outside of their comfort zone, as that is when they are likely to learn most' (Allison & Tharby, 2015:15). Felly, mae disgyblion sy'n mabwysiadu meddylfryd twf yn fwy tebygol o ddeall bod gwaith anodd, ymdrech a dysgu o fethiant yn hanfodol i'w llwyddiant yn y dyfodol. Byddant yn mwynhau'r her ac yn ei gweld fel rhan bwysig o'u dysgu.

Fodd bynnag, 'It is the underachieving, fixed mindset students that cause us most difficulty. To them, effort feels fruitless and seems to compound their negative self-perception' (Allison & Tharby, 2015:15). Dengys hyn nad ydynt yn mwynhau'r her ac nid ydynt am gael eu hystyried fel cael trafferth. Mae'n bosib bod Disgybl A yn ffeindio'r gwaith yn heriol ac nid yw'n mwynhau'r her, felly mae'n camymddwyn yn hytrach na gwneud y gwaith. Er mwyn newid disgyblion o fod yn feddylfryd sefydlog i feddylfryd twf (Dweck, 2012), mae angen rhoi gwaith yn fwy heriol iddynt a'u cefnogi trwy eu helpu i feddwl eu bod yn gallu llwyddo a fydd yn arwain atynt gofleidio'r her. Gall heriau gefnogi dysgu trwy symud disgyblion allan o'u, '[...] comfort zone into the struggle zone, we also need to ensure that we do not push them too far so that they end up in the panic zone' (Allison & Tharby, 2015:16). Pwysleisia hyn yr angen i athrawon wthio disgyblion yn ddigon pell fel eu bod mewn brwydr gynhyrchiol. Dylai athrawon osod disgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl a'u cefnogi yn ystod gwersi er mwyn iddynt gyflawni neu ragori eu nodau. Bydd gwahaniaethau a sgaffaldau yn hynod bwysig er mwyn sicrhau hyn.

I grynhoi, gall rhoi heriau i ddisgyblion fod yn fuddiol ac yn eu helpu i symud ymlaen yn y broses ddysgu ond mae'n gallu achosi panig a straen a fydd yn sbarduno ymddygiad heriol mewn rhai achosion. Mae'n hanfodol sicrhau bod lefel yr her mewn gwersi yn addas i ddisgyblion.

Adfyfyrio a'r camau nesaf

Yn yr adran hon, adfyfyrir ar ffocysau ynghylch yr achos beirniadol. Chwaraea adfyfyrio'n feirniadol rôl hanfodol mewn gwella a newid sefyllfa arferion, gweithredoedd a dewisiadau. Ychwanega hyn at ddatblygu twf proffesiynol athrawon a gwella'r math o gefnogaeth y maent yn eu darparu i'w disgyblion.

Gallai lefel yr her yn y wers fod wedi cael effaith ar y disgybl ac achosi iddo swingio ar ei gadair ac aflonyddu ar ddisgyblion eraill oherwydd dengys ymchwil (Stone 1990, Allison & Tharby 2015) fod disgyblion yn dechrau camymddwyn ac nid ydynt yn canolbwyntio oherwydd eu bod yn ffeindio'r gwaith yn rhy heriol. Dywedir bod disgyblion yn sylweddoli eu bod yn cael trafferth ac yn ymateb mewn ffordd ymosodol, ffordd anghwrtais, trwy dynnu'n ôl neu mewn ystod o ffyrdd eraill (Stone, 1990:5) sy'n berthnasol i'r achos oherwydd bod Disgybl A yn camymddwyn yn ystod y wers. Awgryma hyn felly ei fod yn cael trafferth wrth wrando ar yr athrawes neu wrth wneud y tasgau sy'n arwain ato golli ffocws, swingio ar ei gadair ac aflonyddu ar ddisgyblion (gwelir yn Atodiad 5). Gallai Disgybl A fod yn ddisgybl sydd gan feddylfryd sefydlog (Dweck, 2012) oherwydd nad yw'n cwblhau'r tasgau neu am ddysgu yn ystod y wers. Cefnoga hyn nad yw Disgybl A yn mwynhau'r gwaith heriol neu am gael ei ystyried fel disgybl sy'n cael trafferth. Er mwyn datrys y camymddwyn a cheisio annog Disgybl A i fod yn ddisgybl meddylfryd twf (Allison & Tharby 2015, Dweck, 2012), gallai'r athrawes barhau i roi gwaith heriol iddo ond sicrhau ei bod yn cefnogi'r disgybl trwy ei helpu i feddwl ei fod yn gallu llwyddo a fydd yn arwain ato gofleidio'r her. Gellid hefyd defnyddio sgaffaldau er mwyn cynnig help gwahaniaethol oherwydd mai sgaffaldau yw dull dysgu sy'n galluogi disgybl i ddatrys problem, cwblhau tasg neu nod trwy gymorth allanol (InformED 2016, Ar-lein). O ran fy natblygiad proffesiynol, byddwn yn sicrhau bod pob disgybl yn cael ei herio oherwydd bod heriau'n eu helpu i symud ymlaen yn y broses ddysgu ond byddwn yn sicrhau bod lefel yr her mewn gwersi yn addas i allu'r unigolion na fydd yn eu gwthio yn rhy bell, '[...] so that they end up in the panic zone' (Allison & Tharby, 2015:16).

Byddwn hefyd yn sicrhau bod adnoddau a help ar gael i'r disgyblion i sgaffaldio eu dysgu ac atal camymddwyn.

Mae'n bosib bod anawsterau dysgu gan Ddisgybl A oherwydd bod disgyblion sydd gan anawsterau dysgu yn fwy tebygol o ddangos problemau ymddygiad, yn enwedig os nad ydynt yn gallu cadw i fyny gyda'r gwaith neu'r wers (Stone, 1990). Wrth ddysgu disgybl sydd gan anawsterau dysgu, mae'n rhaid ystyried yr amgylchedd, grwpio a dulliau dysgu oherwydd bod anawsterau dysgu yn digwydd oherwydd amgylchedd anaddas, grwpio amhriodol a dulliau dysgu anhyblyg (Department for education and skills, 2004). Crea hyn y syniad nad yw dull dysgu'r athrawes yn addas i Ddisgybl A oherwydd ei fod yn parhau i gamymddwyn. Yr oedd yn swingio ar ei gadair ac yn aflonyddu ar ddisgyblion yn ystod y tasgau unigol sy'n awgrymu nad yw'n mwynhau gweithio'n annibynnol ond yn mwynhau cyfathrebu a chymdeithasu. Gwelwyd llawer o dasgau unigol yn ystod y wers (gwelir yn Atodiad 1). Felly, gallai'r athrawes gynnwys tasgau gwaith tîm a fyddai'n sicrhau amrywiaeth ac yn galluogi Disgybl A i ddysgu o help ei gyd-ddysgwyr. Portreada hyn waith Vygotsky (Vygotsky 1978) sy'n canolbwyntio ar y gwahaniaeth rhwng yr hyn y gall dysgwr ei wneud gyda help a'r hyn y gall dysgwr ei wneud heb help. Byddai Disgybl A yn symud ymlaen yn y broses ddysgu trwy weithio fel rhan o dîm i gwblhau tasgau. O ran fy natblygiad proffesiynol, byddwn yn sicrhau amrywiaeth mewn gwersi fel cynnwys tasgau gwaith tîm a thasgau unigol a fyddai'n cadw sylw disgyblion, cynorthwyo dysgu disgyblion ac yn apelio at wahanol fathau o ddysgwyr.

Yn yr un modd, gallai'r amgylchedd a'r cynllun eistedd fod wedi effeithio ar Ddisgybl A oherwydd ei fod yn parhau i droi o gwmpas i aflonyddu a siarad â'r disgyblion y tu ôl iddo. Fel argymhelliad, gallai'r athrawes greu cynllun eistedd newydd lle mae Disgybl A yn eistedd wrth ddisgyblion sy'n anghyfarwydd iddo oherwydd pan symudodd yr athrawes y disgybl tua diwedd y wers, yr oedd yn fwy agored i geisio cwblhau'r tasgau (gwelir yn Atodiad 5). Hefyd, gallai'r athrawes fod wedi symud Disgybl A y tro cyntaf iddi weld yn swingio ar ei gadair ac aflonyddu ar ddisgyblion ond rhoddwyd cyfle i'r disgybl gywiro ei ymddygiad sy'n cyfateb â model Levin a Nolan (2005).

O ran fy natblygiad proffesiynol, er mwyn osgoi a rheoli ymddygiad heriol yn y dyfodol, byddwn yn defnyddio disgyblaeth ataliol (Charles, 2002:236) sy'n cymryd camau cywir i ddarparu amgylchedd dysgu deniadol lle mae anghenion disgyblion yn cael eu hystyried a'u

trin yn sensitif. Ychwanega hyn at ystyried y disgybl cyfan hefyd sy'n bwysig oherwydd gallai Disgybl A fod yn cael problemau cartref a fydd yn achosi ymddygiad heriol yn yr ysgol. Strategaeth arall y byddwn yn ei defnyddio yw creu amgylchedd lle mae anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu oherwydd pan fydd anghenion sylfaenol disgyblion yn cael eu diwallu, bydd disgyblion yn canolbwyntio ar gyflawni anghenion eraill fel parch i eraill, hyder a chyflawniad (Reid, t.3, Ar-lein). Yn olaf, byddwn yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gywiro eu hymddygiad a defnyddio cynllun ymyrraeth wedi'i bennu ymlaen llaw sy'n amlinellu mathau o gamymddwyn ac yn eu paru â dull disgyblu priodol. Byddai hyn yn fy helpu i ddarparu mathau cyson o ddisgyblaeth sy'n hanfodol oherwydd bod disgyblion sy'n credu bod athrawon yn anghyson yn fwy tebygol o gamymddwyn.

I grynhoi, mae nifer o resymau pam mae Disgybl A yn camymddwyn yn ystod y wers. Byddwn yn defnyddio gwahanol strategaethau i osgoi ac atal camymddwyn yn y dyfodol, amrywio tasgau, gwahaniaethu, gosod rheolau yn aml a chreu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Cefnoga hyn fod adfyfrio'n feirniadol yn helpu i ddatblygu twf proffesiynol.

Casgliad

Ar y cyfan, dylanwadodd amrywiaeth o ffactorau ar yr achos beirniadol a arsylwyd yn Ysgol A. Y prif ffactorau oedd lefel yr her yn y wers, yr amgylchedd, anawsterau dysgu a diffyg amrywiaeth o ran tasgau. Oherwydd hyn, byddwn yn sgaffaldio, amrywio tasgau a gwahaniaethu mewn gwersi a cheisio creu amgylchedd dysgu cadarnhaol sy'n annog disgyblion i ddysgu a chymryd rhan mewn tasgau. Darganfuwyd y ffactorau hyn trwy arsylwi ac adfyfrio sy'n pwysleisio pwysigrwydd arsylwi ac adfyfrio ym maes addysg a datblygiad proffesiynol. Gall adfyfrio ac arsylwi reoli perfformiad, cynyddu ansawdd addysgu, datblygu dulliau a gwella safonau. Felly, maent yn hollbwysig i'm datblygiad proffesiynol oherwydd byddant yn fy ngalluogi i gymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu a gwella fy sgiliau addysgeg. Cysyllta sgiliau addysgeg â'r safonau proffesiynol newydd oherwydd bod ffocws ar addysgeg effeithiol, cydweithredu gan sicrhau y caiff addysgeg effeithiol ei lledaenu a'r safon arloesi er mwyn datblygu addysgeg (Llywodraeth Cymru 2018:2). Bydd y safon arweinyddiaeth a'r safon dysgu proffesiynol yn helpu i ddatblygu addysgeg ymhellach ac yn cynyddu addysgeg effeithiol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2018:2). Cefnoga hyn fod adfyfrio ac arsylwi yn chwarae rôl hanfodol wrth gyrraedd y safonau.

Llyfryddiaeth

Allison, S. & Tharby, A. 2015. *Making every lesson count: Six principles to support great teaching and learning*. Carmarthen: Crown House Publishing Limited.

British Educational Research Association (BERA). 2018 (4ydd argraffiad). *ETHICAL GUIDELINES FOR EDUCATIONAL RESEARCH*. Llundain. [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018> [Gwelwyd 01/10/19].

Charles, C.M. 2002 (2il argraffiad). *Building Classroom Discipline*. New Jersey: Pearson.

Cohen, L., Manion, L. & Morrison, K. 2000 (5^{ed} argraffiad). *Research Methods in Education*. London: Routledge Falme.

Department for education and skills 2004. *Removing Barriers to Achievement The Government's Strategy for SEN*. [Ar-lein] Ar gael ar: https://dera.ioe.ac.uk/4955/14/pri_loi_sen_govt_strategy_Redacted.pdf [Gwelwyd 12/10/19].

Dweck, C. 2012. *Mindset*. London: Robinson.

Estyn 2014. *Arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd*. [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Arsylwi%20ystafelloedd%20dosbarth%20yn%20effeithiol%20mewn%20ysgolion%20cynradd%20ac%20uwchradd%20-%20Hydref%202014.pdf> [Gwelwyd 28/09/19].

Estyn 2018. *Adroddiad Estyn am Ysgol A*. [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/document/Baglan.pdf> [Gwelwyd 26/09/19].

Fletcher-Wood, H. 2016. *Ticked off*. Carmarthen: Crown House Publishing Ltd.

InformED 2016. *Instructional Scaffolding: A Definitive Guide*. [Ar-lein]. Ar gael ar: <https://www.opencolleges.edu.au/informed/teacher-resources/scaffolding-in-education-a-definitive-guide/> [Gwelwyd 09/10/19].

Kumar, R. 2005 (2il argraffiad). *Research methodology: A step-by-step guide to for beginners*. London: SAGE Publications Ltd.

Levin, J. & Nolan, J. F. 2005. *Every Teacher: Classroom Management*. Melbourne: Pearson Education Inc.

Lyons, G., Ford, M. & Arthur-Kelly, M. 2003. *Classroom Management: Creating Positive learning Environments*. Melbourne: Cengage.

Llywodraeth Cymru 2015a. *Cwricwlwm i Gymru- cwricwlwm am oes*. [Ar-lein] Ar gael ar: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cwricwlwm-i-gymru-cwricwlwm-am-oes.pdf> [Gwelwyd 29/09/19].

Llywodraeth Cymru 2015b. *Dyfodol Llwyddiannus: Crynodeb o adroddiad yr Athro Graham Donaldson*. [Ar-lein]. Ar gael ar: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus-crynodeb-o-adroddiad-yr-athro-graham-donaldson.pdf> [Gwelwyd 02/10/19].

Llywodraeth Cymru 2018. *Cyflwyniad i'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*. [Ar-lein] Ar gael ar: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/93/0e/42/c4/445a4e54a43f8b0847afa059/cyflwyniad-ir-safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-taflen.pdf> [Gwelwyd 14/10/19].

McManus, M. 1989. *Troublesome behaviour in the classroom: A teachers' survival guide*. London: Routledge.

Raise Learning 2011. *Back to basics - A brief summary of early childhood observation methods and techniques*. [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.raiselearning.com.au/blogs/news/2765692-back-to-basics-a-brief-summary-of-early-childhood-observation-methods-and-techniques> [Gwelwyd 21/09/19].

Reid, D (Dim dyddiad). *BEHAVIOUR MANAGEMENT A Guide to Successful Classroom Management*. [Ar lein] Ar gael ar: https://denisereid.weebly.com/uploads/4/9/4/6/49465003/behavioural_management_handbook_by_densie_reid_.pdf [Gwelwyd 13/10/19].

Stone, L. 1990. *Managing difficult children in school*. Oxford: Basil Blackwell Ltd.

Tripp, D. 2003. *Critical incidents in teaching: developing professional judgement*. London: Routledge.

ECAD6007C - 1900708

Vygotsky L. 1978. *Mind in Society*. Cambridge Mass: Harvard University Press.

Atodiadau

Atodiad 1

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019

Manylion y wers:

Gwers Gymraeg ail iaith gyda Blwyddyn 8 Set 2

Diwylliant ar lawr dosbarth

Mae'r rhan fwyaf o'r dosbarth yn canolbwyntio ar ddysgu ond mae nifer o ddisgyblion nad ydynt yn canolbwyntio ar ddysgu ac yn aflonyddu dysgu disgyblion eraill. Mae dau ddisgybl sy'n eistedd yng nghefn yr ystafell ddosbarth sy'n gwneud sŵn ac yn siarad â'i gilydd yn ystod y dysgu a'r tasgau. Hefyd, mae un disgybl (disgybl A) sy'n swingio ar ei gadair ac nid yw'n canolbwyntio ar ddysgu o gwbl neu'n cwblhau'r tasgau. Yn ystod hyn, mae ef hefyd yn troi o gwmpas i aflonyddu a siarad â'r disgyblion y tu ôl iddo. Oherwydd hyn, mae'r athrawes yn ei symud i sedd arall.

Amcanion

Amcanion y wers yw dysgu geirfa 'Taldra', mesur y dosbarth ac ysgrifennu brawddegau sy'n ymwneud â thaldra, felly ceir pwrpas clir i'r wers. Ar ddechrau'r wers, mae'r athrawes yn cwestiynu'n agored am daldra e.e.- Beth yw taldra, beth yw modfedd a throedfedd ayb. Nesaf, mae'n drilio'r eirfa i'r dosbarth er mwyn cryfhau dealltwriaeth ac ynganiad. Mae mwy o gwestiynu ar ôl hyn lle mae'r plant yn gorfod ateb 'Pa mor dal wyt ti? Pa mor dal yw e/hi? ayb.' Hefyd, mae tasg gyfieithu lle mae'n rhaid i'r disgyblion gyfieithu brawddegau sy'n ymwneud â thaldra. Yn olaf, mae'r disgyblion yn creu brawddegau sy'n disgrifio taldra eu teuluoedd/ffrindiau. Mae pob tasg yn berthnasol i daldra ac amcanion y wers ac yn hyrwyddo pwrpas y wers trwy hynny. Fodd bynnag, ceir llawer o dasgau unigol yn ystod y wers.

Cyfarwyddyd

Mae'r dosbarth yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda oherwydd bod y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud y tasgau yn hyderus a phan mae'r athrawes yn gofyn am enghreifftiau ac atebion, maent yn rhoi enghreifftiau ac atebion cywir. Hefyd, cyn pob tasg mae'r athrawes yn gofyn a yw pawb yn gwybod beth i'w wneud, yn ystod y tasgau mae'r athrawes yn cerdded o gwmpas yr ystafell i sicrhau bod pawb yn gwneud y tasgau yn gywir ac ar ôl pob tasg mae'n gofyn i'r disgyblion am enghreifftiau ac atebion i sicrhau dealltwriaeth. Fodd bynnag, pan mae hi'n mynd i ddisgybl A ac yn gofyn a yw'n gwybod beth i'w wneud, mae disgybl A yn sicrhau iddi ei fod yn gwybod beth i'w wneud ond ar ôl i'r athrawes adael bwrdd disgybl A, nid yw disgybl A yn gwneud y tasgau ac yn parhau i droi o gwmpas i aflonyddu a siarad â'r bobl y tu ôl iddo.

Mynediad a her

Mae mwyafrif y disgyblion yn gallu dilyn y wers ac yn cael eu herio, heblaw i'r disgybl sy'n swingio ar ei gadair ac yn aflonyddu ar ddisgyblion eraill. Mae'r disgyblion yn ateb cwestiynau yn gywir sy'n dangos eu bod yn dilyn y wers. Mae'r athrawes yn darparu geirfa allweddol ar y bwrdd er mwyn cefnogi'r disgyblion. Hefyd, pan mae cwestiynau gyda'r disgyblion, mae'r athrawes yn eu helpu yn syth sy'n dangos bod rhai disgyblon yn cael ei herio.

Asesu

Mae'r athrawes yn asesu dealltwriaeth cyn y wers trwy gwestiynu'r disgyblion am daldra e.e.- 'Beth yw taldra yn y Saesneg?.' Yn ystod y wers, mae'r athrawes yn asesu yn ffurfiannol trwy ofyn i'r disgyblon am atebion ac enghreifftiau e.e. y dasg gyfieithu. Ar ddiwedd y wers, mae'n gofyn iddynt gwestiynau am eirfa taldra i sicrhau dealltwriaeth o'r wers e.e.- Beth yw modfedd? Beth yw troedfedd?

Manylebau / Achosion Beirniadol

Ymddygiad Disgybl A- Mae disgybl A yn swingio ar ei gadair ac yn troi o gwmpas i aflonyddu a siarad â disgyblion eraill y tu ôl iddo. Ond, nid yw'r athrawes yn ei weld am nifer o funudau. Ar ôl ei weld, mae'n gofyn i ddisgybl A stopio ac yn mynd i'w fwrdd i sicrhau bod y disgybl yn canolbwyntio ar y dasg ac yn gwybod beth i'w wneud. Mae'r athrawes yn treulio amser yn helpu disgybl A ond cyn gynted ag y bydd yn gadael ei fwrdd mae'r disgybl yn mynd oddi ar y dasg, yn dechrau swingio ar ei gadair eto ac yn troi o gwmpas i siarad ac aflonyddu ar y disgyblion y tu ôl iddo. Ar ôl hyn, mae'r athrawes yn symud disgybl A i sedd arall.

Cwestiynu'n agored- mae'r un disgyblion yn ateb y cwestiynau sy'n effeithio ar ddysgu disgyblion eraill ac oherwydd hyn nid yw'r athrawes yn gwybod lle mae'r disgyblion nad yw'n ateb yn y broses ddysgu.

Llyfrau a llyfrynau- Mae rhai disgyblion wedi anghofio eu llyfrau a llyfrynau sy'n hanfodol i'r wers oherwydd bod geiriau allweddol a rhai tasgau o'r wers yn y llyfrynau. Hefyd, nid yw'r athrawes yn rhoi papur iddynt tan ar ôl y drilio a chwestiynu. Oherwydd hyn, nid ydynt wedi cael cyfle i ysgrifennu geirfa allweddol i lawr.

Atodiad 2

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019
Manylion y wers: Gwers Saesneg gyda Blwyddyn 8 Set 2
Diwylliant ar lawr dosbarth Pan fydd yr athro yn sefyll ar flaen yr ystafell ddosbarth, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu. Fodd bynnag, mae grŵp o ddisgyblion nad ydynt yn canolbwyntio ar ddysgu ac nid ydynt yn cwblhau'r tasgau. Pan fydd yr athro yn helpu'r grŵp o ddisgyblion nad ydynt yn canolbwyntio, mae gweddill yr ystafell ddosbarth yn mynd yn dechrau siarad â'i gilydd a cherdded o gwmpas yr ystafell oherwydd bod cefn yr athro yn eu hwynebu nhw.
Amcanion Amcan y wers yw adolygu llenyddiaeth othig ac mae'n rhaid i'r disgyblion ddarllen paragraff o stori othig a chywiro'r camgymeriadau. Ar ôl hyn, maent yn edrych ar destunau gwahanol mewn parau i lenwi mewn taflen waith. Mae'r daflen yn gofyn cwestiynau am agweddau stori ffuglen. Felly, mae'r tasgau yn berthnasol i bwrpas y wers.
Cyfarwyddyd Mae'r athro yn rhoi cyfarwyddiadau iddynt am y tasgau ond nid wyf yn sicr bod y disgyblion yn gwybod beth i'w wneud oherwydd bod yr athro yn treulio llawer o amser yn mynd i wahanol fyrdau i helpu'r disgyblion, yn enwedig ar gyfer y dasg lle maent yn gorfod ateb cwestiynau am agweddau stori ffuglen othig.
Mynediad a her Nid yw pob disgybl yn gallu dilyn y wers neu'n cael eu herio oherwydd bod y rhan fwyaf o'r dosbarth yn gofyn am help yn aml iawn sy'n rhoi syniad nad ydynt yn deall y tasgau neu efallai bod y tasgau yn rhy heriol iddynt. Hefyd, nid oes amser ar ôl i fynd dros yr atebion ar gyfer yr ail dasg sy'n dangos nad yw'r athro yn gwybod lle mae'r disgyblion yn y broses ddysgu.
Asesu Nid oes gormod o asesu yn ystod y wers oherwydd bod yr athro yn asesu unwaith yn unig trwy gwestiynu'n agored (Ar ôl y dasg lle mae'r disgyblion yn cywiro'r camgymeriadau yn y paragraff)

Manylebau / Achosion Beirniadol

Ar ôl y dasg gyntaf, mae'r athro yn gofyn am yr atebion ond yn cwestiynu'n agored sy'n arwain at yr un disgyblion ateb bob tro. Felly, nid yw'r athro yn gwybod lle mae'r disgyblion eraill yn y broses ddysgu.

Pan fydd yr athro yn mynd i un ochr yr ystafell ddosbarth i helpu disgyblion, nid yw'r ochr arall yn canolbwyntio ar ddysgu ac nid ydynt yn gwneud y tasgau sy'n arwain at redeg allan o amser ar ddiwedd y wers i fynd dros yr atebion ar gyfer yr ail dasg.

Atodiad 3

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 02/10/2019
Manylion y wers: Gwers Mathemateg, Blwyddyn 8 set 2
Diwylliant ar lawr dosbarth Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu ac yn gwneud y tasgau yn dawel ac yn hyderus. Fodd bynnag, pan mae'r athrawes yn esbonio'r cwestiynau a'r dull ar flaen yr ystafell ddosbarth mae dau ddisgybl sy'n eistedd yn y cefn yn siarad â'i gilydd ac nid ydynt yn canolbwyntio ar ddysgu.
Amcanion Pwrpas y wers oedd 'Casglu termau' a 'Lluosi termau yn Algebra' Yr oedd pob tasg yn berthnasol i'r amcanion oherwydd bod rhaid i'r disgyblion gwblhau cwestiynau sy'n ymwneud â'r amcanion.
Cyfarwyddyd Mae'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud oherwydd eu bod yn cwblhau'r tasgau yn hyderus ac yn gywir. Mae'r athrawes yn esbonio'r dull i'r disgyblion cyn iddynt ateb y cwestiynau. Wedyn, mae'r athrawes yn mynd o gwmpas yr ystafell ddosbarth er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y tasgau ac yn gwybod beth i'w wneud.
Mynediad a her Mae pob disgybl yn gallu dilyn y wers ac yn cael eu herio. Fodd bynnag, nid oes tasgau estynedig ar gael i'r disgyblion sy'n gorffen y tasgau yn gynnar.
Asesu Mae'r athrawes yn asesu dealltwriaeth cyn y wers trwy ofyn cwestiynau i'r disgyblion am gasglu termau a lluosu termau yn algebra' i weld os ydyn yn gyfarwydd gyda'r topig. Yn ystod y wers, mae hi'n asesu dealltwriaeth disgyblion trwy roi cwestiynau iddynt ac wedyn gofyn am yr atebion. Mae hi'n mynd dros yr atebion fel dosbarth er mwyn sicrhau dealltwriaeth. Hefyd, fel tasg gloi mae'n rhaid i'r disgyblion ateb pum cwestiwn am bopeth a ddysgwyd yn y wers er mwyn profi dealltwriaeth.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Mae'r athrawes yn cwestiynu'n agored wrth ofyn am yr atebion i'r cwestiynau ond mae mwy nag un disgybl yn ateb ac yn siarad dros ei gilydd. Hefyd, mae'r un disgyblion yn ateb bob tro.

Ar gyfer y dasg gyntaf, mae'r athrawes yn dweud yr atebion ar lafar ac yn gyflym i'r disgyblion yn hytrach nag eu hysgrifennu ar y bwrdd. Felly, efallai bod rhai disgyblion sy'n eistedd yn y cefn nad yw'n gallu clywed yr atebion yn dda.

Atodiad 4

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 02/10/2019
Manylion y wers: Gwers Ffrangeg, Blwyddyn 8 Set 2
Diwylliant ar lawr dosbarth Nid yw'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu yn gyson oherwydd eu bod yn siarad â'i gilydd ac yn siarad dros yr athrawes pan mae'n esbonio'r tasgau.
Amcanion Pwrpas y wers yw adolygu ansoddeiriau meddiannol. Mae pob tasg yn cynnwys ansoddeiriau meddiannol sy'n hyrwyddo pwrpas y wers.
Cyfarwyddyd Mae'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud ond mae'n cymryd llawer o amser i'r athrawes esbonio'r tasgau oherwydd bod y disgyblion yn siarad drosti.
Mynediad a her Gall pob disgybl ddilyn y wers ond mae un disgybl sy'n gorffen y tasgau yn gynnar ac eisiau gwaith sy'n fwy heriol. Mae'r athrawes ar gyflenwi, felly nid yw'n gallu darparu tasgau estynedig na gwaith sy'n fwy heriol iddo.
Asesu Asesa'r athrawes ddealltwriaeth ar ddechrau'r wers trwy ofyn a ydynt yn gwybod ystyr ansoddeiriau meddiannol. Yn ystod y wers, mae'n cwestiynu disgyblion er mwyn gwella dealltwriaeth ac i weld lle maent yn y broses ddysgu.
Manylebau / Achosion Beirniadol Mae disgybl MAT sy'n gorffen yr holl dasgau yn gynnar ond nid oes tasgau estynedig ar gael iddo. Mae'r athrawes yn cwestiynu'n agored ac mae'r un disgyblion yn ateb. Ceir un ferch sy'n troi o gwmpas yn aml i siarad â'r bachgen y tu ôl iddi.

Atodiad 5**Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)****Dyddiad: 26/09/2019****Digwyddiad critigol (Ffocws): Mae disgybl sy'n swingio ar ei gadair ac yn troi o gwmpas i aflonyddu ar y disgyblion y tu ôl iddo**

Profiad	
Teimladau <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i>	Yr oedd yn ddiddorol gweld y gwahaniaeth rhwng disgyblion yn y dosbarth oherwydd bod y rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio ar ddysgu ac eisiau datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r thema 'Taldra' ond ceir un disgybl nad yw'n canolbwyntio ar ddysgu sy'n awgrymu nad yw eisiau dysgu. Felly, cwestiynir pam mae'n yn yr un dosbarth â'r disgyblion sydd eisiau dysgu a gwella. Yr oedd yn swingio ar ei gadair ac yn troi o gwmpas i siarad â bobl y tu ôl iddo, felly yr oedd yn aflonyddu eu dysgu a oedd yn siomedig i weld. Mae'r athrawes yn dweud wrtho i stopio ac yn gofyn a yw'n gwybod beth i'w wneud ar gyfer y dasg. Mae'r disgybl yn sicrhau iddi ei fod yn gwybod beth i'w wneud ond ar ôl i'r athrawes adael y bwrdd, nid yw'n gwneud y tasgau ac yn parhau i droi o gwmpas i aflonyddu a siarad â'r bobl y tu ôl iddo. Oherwydd hyn, mae'r athrawes yn ei symud i sedd arall. Yr oedd hyn yn ffordd dda o ddellio gyda'r sefyllfa oherwydd ei fod wedi galluogi dysgwyr eraill i ddysgu a chwblhau y tasgau heb gael eu haflonyddu gan y disgybl.
Cofio a Deall <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i>	Yr oedd yr athrawes wedi delio gydag ymddygiad aflonyddgar y disgybl yn dda trwy ei symud i sedd gwahanol er mwyn galluogi dysgwyr eraill i barhau i ddysgu. Nid oedd y disgybl eisiau dysgu neu wneud y tasgau ond hefyd nad oedd eisiau y bwrdd y tu ôl iddo wneud y tasgau oherwydd ei fod wedi troi o gwmpas i siarad â nhw ac eu haflonyddu nhw. Yr oedd hyn yn siomedig.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i>	Efallai nad oedd Disgybl A yn deall y tasgau ac oherwydd hyn ei fod yn ceisio aflonyddu ar ddysgwyr eraill yn ystod y wers. Er bod yr athrawes wedi treulio amser gydag ef yn gofyn a yw'n gwybod beth i'w wneud ar gyfer y dasg. Y tro nesaf, gallai'r athrawes dreulio mwy o amser gyda Disgybl A yn esbonio'r tasgau mewn dyfnder i sicrhau ei fod yn gwybod beth i'w wneud neu greu tasgau yn llai heriol iddo. Pan symudodd Disgybl A sedd, yr oedd yn fwy agored i geisio cwblhau'r tasgau. Felly, gallai'r athrawes greu cynllun eistedd lle mae'r disgybl yn eistedd gyda phobl newydd.

Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd?</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i>	• Creu tasgau llai heriol ar gyfer disgyblion gallu is yn y dosbarth-Gwahaniaethu. • Creu cynllun eistedd newydd lle mae pob disgybl yn eistedd gyda disgyblion anghyfarwydd.
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	

Atodiad 6

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Dyddiad: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws): Cwestiynu'n agored

Profiad	
Teimladau/ <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i>	Mae'r athro yn gofyn am yr atebion ar ôl y dasg ond yn cwestiynu'n agored sy'n arwain at yr un ddisgyblion ateb bob tro. Felly, nid yw disgyblion eraill yn cael cyfle i ateb ac nid yw'r athro yn gwybod lle mae'r disgyblion eraill yn y broses ddysgu. Mae'n bwysig iawn cwestiynu ar ôl tasgau ond efallai gallai'r athro ofyn i wahanol ddisgyblion ateb yn hytrach na gadael yr un ddisgyblion ateb a fydd yn galluogi'r athro i weld a yw pawb wedi deall y dasg.
Cofio a Deall/ <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgi oedd yn siomedig?</i>	Yr oedd y disgyblion a oedd yn ateb bob tro yn rhoi atebion cywir sy'n dangos eu bod wedi deall y dasg ac wedi cwblhau'r dasg yn llwyddiannus. Fodd bynnag, yr oedd yn siomedig gweld yr un ddisgyblion ateb bob tro sy'n awgrymu nad oedd y disgyblion eraill wedi deall y dasg neu wedi gwneud y dasg yn llwyddiannus. Nid oedd yr athro wedi sylweddoli hyn.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i>	Mae cwestiynu yn rhan bwysig o wers a'r broses ddysgu i weld dealltwriaeth disgyblion ond yr oedd yr athro yn cwestiynu'n agored ac oherwydd hyn yr oedd yr un ddisgyblion yn ateb bob tro. Felly, dylid cwestiynu parhau i fod yn rhan o'r wers ond efallai gallai'r athro ofyn i ddisgyblion newydd am atebion i sicrhau bod pob disgybl yn deall y dasg ac wedi gwneud y dasg yn llwyddiannus.
Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd?</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i>	Yn hytrach na chwestiynu'n agored, gallai'r athro ddewis gwahanol ddisgyblion i weld lle mae pawb yn y broses ddysgu. Nid oedd rhai disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu a gallai hyn fod oherwydd bod nhw'n gwybod nad oes rhaid iddynt ateb cwestiynau oherwydd bod yr un ddisgyblion yn ateb bob tro.

Atodiad 7

Dyddiad: 02/10/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws): Mae'r athrawes yn dweud yr atebion ar lafar ac yn gyflym i'r disgyblion

Profiad	
Teimladau <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i>	Mae'n bwysig bod yr athrawes yn rhoi yr atebion i'r disgyblion er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac er mwyn iddynt wybod lle maen nhw yn y broses ddysgu. Fodd bynnag, ar gyfer un dasg, mae'r athrawes yn dweud yr atebion ar lafar ac yn gyflym i'r disgyblion sy'n ei wneud yn heriol i ddisgyblion sy'n eistedd yn y cefn glywed yr atebion.
Cofio a Deall/ <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i>	Rhoddodd yr athrawes yr holl atebion i'r disgyblion sy'n dda ond yr oedd yn dweud yr atebion yn rhy gyflym a oedd yn siomedig oherwydd bod yn heriol i glywed pob ateb wrth eistedd yng nghefn yr ystafell ddosbarth.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i>	Mae'n hanfodol rhoi atebion i'r disgyblion, felly dylai'r athrawes barhau i wneud hyn ond efallai gallai ddweud yr atebion yn uchel ac wedyn eu hysgrifennu ar y bwrdd i sicrhau bod pob disgybl yn gwybod yr atebion oherwydd bod rhai disgyblion nad yw wedi clywed yr atebion.
Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd?</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i>	Gallai'r athrawes ddweud yr atebion yn uchel ac wedyn eu hysgrifennu ar y bwrdd neu ddarparu taflen sy'n cynnwys yr holl atebion i'r disgyblion. Hefyd, gallai ddweud yr atebion yn arafach.

Atodiad 8

Dyddiad: 02/10/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws): Nid oes tasgau estynedig ar gael ar gyfer y disgybl MAT.

Profiad	
Teimladau/ <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i>	Yr oedd un disgybl yn gorffen pob tasg yn gynnar ac yn cwblhau'r tasgau yn hawdd, felly yr oedd eisiau gwaith yn fwy heriol. Fodd bynnag, nid oes tasgau estynedig ar gael iddo oherwydd bod athrawes cyflenwi yn dysgu'r wers. Yr oedd yn siomedig gweld nad oedd y disgybl yn gallu herio ei hun.
Cofio a Deall <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i>	Yr oedd y disgybl yn gwneud pob tasg yn hyderus ac yn gywir sy'n dangos ei allu, yr oedd amlwg bod y tasgau yn rhy hawdd iddo. Felly, yr oedd yn siomedig gweld nad oedd tasgau estynedig ar gael iddo.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i>	Dylai'r disgybl MAT wneud yr un dasgau â'r holl ddisgyblion ond hefyd dylid darparu tasgau estynedig iddo er mwyn iddo herio ei hun. Achos yr elfen siomedig oedd diffyg tasgau heriol ar gael i'r disgybl MAT.
Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd?</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i>	Dylid darparu tasgau estynedig ar gyfer y disgybl MAT a fydd yn ei alluogi i herio ei hun a mynd ymhellach yn y broses ddysgu.